**Cyngor Cymuned Llaneilian (380)**
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Mai 13, 2025 am 7yh yn Neuadd Bentref Penysarn.

**Presennol:** Alan Williams, Carol Whitaker, Gordon Hayes, John Griffiths, James Roe, Patsy Allen, Dewi Jones, Aled Morris Jones, Derek Owen Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Hefina Williams, Alison Williams, Dafydd Griffiths, Ian Evans, Liz Wood

**1 Croeso**

Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.

**2 Datgan Diddordeb**

Dim datganiadau newydd

**3 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Bu'r aelodau yn unfrydol yn ail benodi Alan Williams a Patsy Allen yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd. Bu Patsy Allen nodi nad oedd ganddi ddiddordeb fod yn Gadeirydd, ond y byddai yn hapus i gefnogi os nad oedd unrhyw un arall a diddordeb ac am fod yn Is-gadeirydd. Bu diolch i'r ddau am dderbyn eu penodiadau.

**4 Cadarnhau cynrychiolaeth pwyllgorau**

Cadarnhawyd pwyllgorau'r Cyngor fel a ganlyn –
Cyllid a Personel – Ian Evans, James Roe, Alan Williams (c), Dafydd Griffiths, Patsy Allen
Parciau a Mannau Agored – Ian Evans. Dewi Jones, Gordon Hayes (c), Carol Whitaker, Patsy Allen
Mynwent – Ian Evans (c), Dafydd Griffiths, John Griffiths, Gordon Hayes, Alison Williams
Llithrfa – Ian Evans, Dafydd Griffiths (c), John Griffiths, James Roe, Patsy Allen, swyddogion CSYM a chynryhiolaeth y gymuned ac aelodau'r cynllun
Cronfa Ty Moel Isaf – holl aelodau'r Cyngor, Carol Whitaker yn gadeirydd
Llwybrau – Dafydd Griffiths, James Roe, Carol Whitaker, John Griffiths, Patsy Allen (c), Alan Williams
Cynllunio – John Griffiths, Dafydd Griffiths (c), Alan Williams, Patsy Allen

Cadarnhawyd cynrychiolaeth ar bwyllgorau allanol fel a ganlyn –
Llywodraethwyr Ysgol Gynradd – Alan Williams
Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon – Dafydd Griffiths, Alan Williams, John Griffiths
Wylfa Magnox – Dafydd Griffiths, Alison Williams / John Griffiths
Un Llais Cymru – Alison Williams, Patsy Allen
Clwb y Gorlan – Hefina Williams, Carol Whitaker
Fforwm Cyswllt Mon – Patsy Allen, Alison Williams / Alan Williams

**5 Taliadau i Aelodaau 2025/26**

Bu dosbarthu ffurflenni i'r aelodau oedd yn bresennol er mwyn hawlio neu gwrthod y taliadau gorfodol yn unol a phenderfyniad Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru. Mae'n bwysig bod y ffurflenni yn cael eu dychwelyd i'r clerc cyn gynted a phosib. Mae angen cwblhau'r ffurflenni yn flynyddol.

**6 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Patsy Allen, eilio Carol Whitaker

**7 Materion yn Codi**

7.1 Meinciau Cymunedol – bu'r clerc gadarnhau prisiau am meinicau plastig ar gyfer y cysgodfannau bws, cytuno byddai prynnu wyth mainc brown gan gwmni NBB Recycled Furniture ynghyd a pecynnau i'w gosod ar darmac.

Daw cais am mainc i'w gosod ar y ffordd i fynu'r allt tuag at fyngalos Stad Tan Rallt. Y clerc i wirio gyda CSYM os oes angen caniatad ffurfiol, ac archebu dwy mainc trwm er mwyn gwneud y gorau o'r costau postio.

7.2 Bagiau Baw Ci – cytuno archebu dau focs dosbarthu (un i Lon Tyddyn Waen, y llall i Bengorffwysfa) a bagiau baw ci ar eu cyfer. Cytuno archebu palet o fagiau baw ci oherwydd costau postio a chysylltu a Cyngor Amlwch a Cyngor Llanbadrig i weld os oeddent am rannu'r gost.

## <u>8</u> <u>Diweddariadau</u>

8.1 Caeau Chwarae – bu cydnabod derbyn adroddiadau diweddaraf Medwyn Owen yn dilyn ei arolygon. Cafwyd adroddiad gan Gordon Hayes am gyflwyr y ffens ym Maes Llwyfo a'r gwaith sydd ei angen, Bydd Alan Williams a Gordon Hayes yn archebu'r defnyddiau perthnasol a threfnu'r gwaith.

8.2 Llithrfa – nid oes diweddariad gan CSYM am y polyn fflag. Mae chwech cais am oriad hyd yma ac mae disgwyl eu dosbaerthu o fewn yr wythnos.

8.3 Mynwent – cadarnhawyd bod Mon Masonry wedi cychwyn ar y gwaith walio heddiw, a'i fod yn gobeithio gorffen cyn diwedd yr wythnos. Bydd DE Griffiths yn cychwyn ar y gardd goffa ddiwedd y mis. Bu cydnabod cwynion am dwrch daear, cytuno cadw golwg ar y sefyllfa.

Bu diolch i Patsy Allen am ei gwaith i drin a thwtio beddi teulu Ty Moel Isaf a hefyd y bedd Rhyfel - James McGrath. Bu'r clerc nodi bod angen trosglwyddo arian o Gronfa Beddi TMI i gyfrif cyfredol y Cyngor unwaith caiff y llyfr siec ei ddychwelyd gan yr archwiliwr.

8.4 Polisi a Chyllid – dim i'w adrodd

8.5 Cronfa TMI – cadarnhawyd yn unfrydol bydd y meinicau a gytunwyd (gweler materion yn codi uchod) yn cael eu hariannu gan y gronfa.

Nodwyd bod parhau i chwilio am grantiau ar gyfer offer ffitrwydd ar gyfer Maes Llwyfo.

8.6 Llwybrau – nodwyd bod cwynion am Lwbr Cadi Rondol, a bod mannau ohono yn wlyb iawn gan orfodi cerddwyr i fynd ymhellach i fewn i'r cae ac o gwpmas y darnau gwylb. Cytuno tynnu sylw CSYM.

Cadarnhawyd bod taith gerdded gyda Blwyddyn 5 i Fynydd Eilian wedi bod yn llwyddiant, a wedi clymu'n dda gyda gweithgareddau wythnos iechyd meddwl. Bu diolch i Patsy Allen ac Alan Williams am dywys y daith.

Nodwyd bod y byrddau gwybodaeth yn dangos cylchdeithiau'r ardal i'w gosod yn fuan a bu diolch i Dafydd Griffiths am ei waith ar y prosiect Cysylltu a Natur.

8.7 Pwyllgorau Allanol –

8.7.1 Neuadd Bentref – cafwyd adroddiad gan Gordon Hayes. Cafwyd wybod bod yr ymddiriedolwyr wedi penderfynnu, fel y Cyngor, monitro'r sefyllfa cyn buddsoddi ymhellach mewn system CCTV. Bu tynnu sylw'r Cyngor bod y Neuadd yn dathlu 100 mlynedd yn 2026 a bu gofyn am syniadau sut orau i ddathlu'r achlysur.

8.7.2 Ffermydd Solar – cafwyd adroddiad cryno ga Alan Williams yn dilyn cyfarfod y pwyllgor yn gwrthwynebu'r datblygiadau. Mae llythyr agored wedi ei baratoi i'w hafnon i Gaerdydd a San Steffan. Mae disgwyl bydd cam nesaf ac ymgynghori ar y ceisiadau cynllunio yn yr Hydref.

8.7.3 Gwasanaeth Coffa – bu diolch i Aled Morris Jones a phawb ynghlwm a'r gwasanaeth i gofio wyth deg mlynedd ers VE Day.

8.8 Bioamrywiaeth – nodwyd siom bod CSYM wedi torri'r gwair i fewn, ac o amgylch y cennin pedr ger Maes Llwyfo – byddai wedi bod yn well i natur petai'r blodau gwyllt wedi eu gadael am y tro. Cytuno cysylltu a CSYM i dynnu sylw a gofyn iddynt beidio a'i dorri y flwyddyn nesaf.

Nodwyd bod CSYM yn bwriadu plannu coed ar yr un llecyn ger Maes Llwyfo, mae'r clerc eisioes wedi ymateb i ddiolch am y cynnig ac i dynnu sylw am bryderon yr aelodau.

Mae parhau i fonitro'r bocsus blodau yn y pentref, cytuno cysylltu a Mr a Mrs Gerrard i ddiolch iddynt yn ffurfiol am fabwysiadu'r bocsus ger y gofeb.

**9 Prosiect Cysylltu a Natur**

Wedi ei drafod eisioes – gweler Llwybrau

**10 Materion Priffyrdd**

Daw cais am lecyn parcio anabl at ddefnydd 6 Allt Nebo. Ni fu gwrthwynebiad.

Bu tynnu sylw at dwll yn y ffordd tu allan i Stad Dublin. Aled Morris Jones i dynnu sylw CSYM.

Bu tynnu sylw at lythyr gan drigolion yn nodi eu pryder am barcio tu allan i'r Neuadd. Cafwyd gadarnhad bod CSYM eisioes yn ymwybodol o'r mater. Aled Morris Jones a Derek Owen i ddilyn i fynu gyda'r swyddogion perthnasol.

Bu tynnu sylw at bris wedi ei dderbyn gan gwmni Coeval am arwydd cyflymder yn flachio. Bu Aled Morris Jones gynnig gysylltu gyda'r adran briffyrdd i wirio eto pam nad yw'r arwydd gyfredol yn gweith.

Cafwyd ebost gan CSYM mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf –

- Mae ail-wynebu Allt Nebo ar y rhestr waith ar gyfer 2025/26 ond nid oes dyddiad wedi ei gadarnhau, mae'r gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau
- Bydd y gwaith angenrheidiol ar y lon heibio Llaethdy tuag at y Ganolfan Hamdden yn cael ei wneud ar fryder.
- Bydd ail-baentio'r llinellau yng nghanol y ffordd osgoi cyn gynted a bo'n ymarferol, nodwyd nad oedd nodweddion y ffordd osgoi yn cyrraedd gofynnion linellau ganol y ffordd dwbwl.

**11 Cynllunio**

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

11.1 Ceisiadau –

LUE/2025/15 Mount View, Llaneilian Rd – dim gwybodaeth pellach i'w rannu

FPL/2025/85 Gadfa Newydd – bu tynu sylw bod dyddiad cau ymateb i'r cais wedi ymestyn; mae'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol bod dogfennau pellach wedi eu ychwanegu ar wefan CSYM 1/5/2025. Cytuno cysylltu a CSYM i ofyn bod yr adran gynllunio yn hysbysu'r Cyngor Cymuned os bydd dogfennau ychwanegol yn cael eu derbyn.

11.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –

FPL/2024/256 Coch Moel, Penysarn – wedi ei ganiatau

11.3 Gorfodaeth – cadarnhawyd bod achos wedi ei agor yn erbyn y garafan sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau yn Gadfa Newydd (ENF/2025/98)

**12 Materion Ariannol**

12.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£33.00 B&Q (gosod arwyddion)
£594.25 Cyflog Clerc (Ebrill)
£59.99 Amazon (inc)
£108.00 Gwaith Cerrig Beddi (TMI)
£114.00 Signs & Design (gwaith dylunio)
£210.00 Anglesey Computer Solutions (gwefan)
£119.20 M Owen (arolygon caeau chwarae)

Nodwyd bod yswiriant y Cyngor angen ei adnwyddu ddiwedd y mis. Bu cytuno parhau gyda

cwmni AJ Gallagher (Hiscox) mewn cytundeb hir dymor.

12.2 Ceisiadau am Arian

12.2.1 Ysgol Gynradd Penysarn – daw llythyr wedi ei ysgrifennu gan ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gofyn am gefnogaeth i ddatblygu eu hardal tu allan. Cytuno yn unfrydol cyfrannu £50 i brynnu offer, blodau, planhygion a hadau tuag at eu prosiect.

12.2.2 Neuadd Bentref – daw cais i brynnu defnyddiau i drwsio'r safle ble bydd gosod coeden Nadolig. Bu cytuno gofyn i'r ymddiriedolwyr beth fydd cost disgwyliedig y prosiect. Cynnig Patsy Allen, eilio Dewi Jones.

12.3 Archwiliad 2024/25
Cadarnhawyd bod y dogfennau perthnasol yn nwylo'r archwiliwr.

**<u>13</u> <u>Coedwig Cymunedol (Perllan)</u>**
Mae'r mater yn parhau gyda adain gyfreithiol CSYM. Cytuno byddai ymwelioad safle pnawn Iau Mai 22 am 5 o'r gloch i wirio ffiniau ac adnabod unrhyw waith sydd ei angen fel bod posib dechrau ar y gwaith o gael prisiau a cheisio am grantiau.

**<u>14</u> <u>Llwybr Lon Gors – Lon Lletroed</u>**
Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a CSYM yn nodi bwriad y Cyngor Cymuned, mae disgwyl barn y swyddogion perthnasol er mwyn sicrhau bod deddfwriath amgylcheddol/ ecolegol yn cael ei fodloni. Y clerc i gysylltu eto cyn cyfarfod mis Mehefi nos na fydd ymateb cyn hynnu.

**<u>15</u> <u>Trafnidiaeth Cyhoeddus (Penysarn – Amlwch)</u>**
Bu tynnu sylw at bryderon yn ymwneud a diffyg gwasanaeth trafnidiaeth cyhoeddus i gyfeiriad Amlwch ac ymlaen, sydd yn golygu bod angen i bobl heb gar ddefnyddio tacsi i gyrraedd y gwaith ar fore Sadwrn neu disgyblion sydd yn chwilio am gyfleon profiad gwaith yn methu cyrraedd Llangefni neu Caergybi cyn 9 y bore. Bu cytuno cysylltu ag Iwan Cadwaladr swyddog CSYM i ofyn am gyfarfod a gwahodd cynrychiolwyr cynghorau eraill Ward Twrcelyn i fynychu.

**<u>16</u> <u>Adroddiad Blynyddol 2024/25</u>**
Bu atgoffa'r aelodau bod angen cydlynnu adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol diwethaf – cytuno anfon gwybodaeth a lluniau i Alan Williams cyn gynted a phosib.

**<u>17</u> <u>Iechyd a Diogelwch</u>**
Dim materion nad sydd eisioes wedi eu trafod.

**<u>18</u> <u>Gohebiaeth</u>**
Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

**<u>19</u> <u>Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf</u>**
Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

**<u>20</u> <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>**
Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Mehefin 10, 2025.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.30yh o'r gloch
**Alan Williams, Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llaneilian**
CET05/25